

Teulu Talentog

Mae brawd a chwaer o Llannor ger Pwllheli yn mwynhau cryn dipyn o lwyddiant ar feysydd chwaraeon Cymru.

Mae Laura Marie a Ben Jones o Caera, Llannor yn 16 a 13 mlwydd oed. Maent yn ddisgyblion yn Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli ble maent yn cael pob cefnogaeth i ddilyn eu breuddwydion.

Cricedwr yw Ben ac, yn ystod y gwyliau hanner tymor diwethaf, cafodd wahoddiad i lawr i'r Canolfan Criced Genedlaethol yng Ngerddi Sofia yng Nghaerdydd i ymarfer gyda Charlan Criced Dan 13 Cymru. Yn ogystal, mae'n ymarfer yn wythnosol yn Kimmell Bay ger Y Rhyl mewn Canolfan Ymarfer Genedlaethol. Mae hefyd yn aelod o garfan dan 13 Eryriac, yn ystod yr haf, bydd yn chwarae yn rheolaidd i Glwb Criced Pwllheli.

Rygbi yw hoff gamp ei chwaer, Laura ac, ar ôl chwarae yn yr ysgol am gwta 2 flynedd, mae wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â Charlan Rygbi i Enethod Dan 16 oed Cymru yn ystod gwyliau'r Pasg. Mae Laura yn mwynhau chwarae hoci yn ogystal â rygbi ac mae yn cynrychioli yr ysgol a'r sir yn y ddwy gamp. Mae hefyd yn aelod o Glwb Hoci Merched Pwllheli.

Gobaith y ddau rhyw ddydd yw cynrychioli Cymru yn eu hoff gampau. Pob lwc i'r ddau.

Laura Marie (16) a Ben Jones (13) o Llannor, Pwllheli,

Nefyn v Mynydd Llandygai



Yn y llun gwelir Barry Griffith yn sleidio i fewn am y bêl yn ystod y gêm uchod yn ddiweddar. Y sgôr terfynol oedd 2-2 yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cych.

Cwpan Her Gogledd Cymru

Rhydymwyn 2 v Nefyn 0

Mae ambell ganlyniad yn brifo – yn brifo'n gythral, ac un felly oedd hwn. Yn wir, pe bawn i'n gwybod nad oes yr un gweinidog yn darllen hwn fe ddywedwn ei fod yn brifo'n uffernol!!

Weithiau fe gaiff tim gurfa go iawn ac mae'n rhaid derbyn fod y gwrthwynebwyd yn well ac yn gryfach ac yn fwy creadigol ac wedi haeddu ennill – ond bobol bach, bnawn Sadwrn diwethaf fe roedd hoggiau Nefyn batrymau celfydd, cywrair a medrus o gwmpas hoggiau Rhydymwyn, dim ond i'r tim cartref gipio dwy gôl yn ystod y pum munud olaf ac felly hawlio'u lle yn rownd nesaf y Cwpan Her.

Mentraf ddweud fod perfformiad y gleision ymysg y gorau a gafwyd y tymor hwn. Yn erbyn tim sydd 12 pwynt ar y blaen ar ben Cynghrair Clwyd roedd Nefyn yn feistri corn – yn pasio'n gyflym, ac yn gadarn pan oedd angen ennill pâl mewn tacl. Heblaw am un peniad a drawodd y trawst a hedfan drosodd, ychydig iawn o welwyd gan y tim cartref, tra ar y llaw arall enillodd Nefyn sawl cic comel a achosodd

Cynghrair Seren Arian Gwynedd

Caernarfon 1 v Nefyn 4

Ar ôl colli'n agos mewn gem glos yn Fhydymwyn roedd Nefyn yn teithio eto – y tro hwn i Gaernarfon mewn gem gynghrair ac, yn amlwg, fe fwynhaodd y gleision y pnawn gan chwalu'r Cofis o bedair gôl i un.

Roedd Nefyn yn llawer cryfach ym mhob agwedd o'u chwarae a chafodd Brian Mathews gem i'w chofio. Fodd bynnag y capten Alan Wyn a ddechreuodd y sgorio pan dorodd trwedd fel cyllell trwy fenyn – roedd ei gyflymder yn llawer gormod i'r amddiffynwyr.

Ymhen hanner awr sgoriodd Alan eto pan drodd yn gelfydd a rhwydo yn isel i'r chwith. Daeth Caernarfon yn ôl i'r gem am sbel a gwnaeth Dylan Hughes arbediad campus – ac roedd eu hyder yn sgiliau Dylan yn galluogi'r hoggiau yn y cefn i chwarae'n glos fel uned ac i ffrwyno pob bygthiad.

Gyda'r hanner cyntaf bron ar ben llithrodd Brian Mathews i

drafferthion di-ri ond rhywsutneu'i gilydd, roedd yr ergyd olaf yn methu bob tro, ac fel y datblygai'r gem câi un y teimlad efallai y byddai'n rhaid talu am y methiannau – a dyna'n union fel y bu.

Gyda chwta bum munud yn weddill, manteisiodd Martin Edwards ar eiliad o ddiffyg canolbwytio yn y cefn a pheniodd dros Dylan yn y gôl. Tafodd Nefyn ddau eilydd ymlaen i ychwanegu at eu hymosodwyr ac aeth Jason Jones yn agos tu hwnt ar ychwith, a thorodd Alan Jones a Brian Mathews drwedd a chyd-basio'n ddeheuig cyn i'r gôl-gaidwad achub yn wyrthiol. Gyda'r holl ymosod, a'r dyfarnwr yn edrych ar ei oriawr, llithrodd pâl wantan dan gorff Dylan a rhoi terfyn ar obethion hoggiau Pen Llŷn.

Bu'n daith hir a diflas tu hwnt yn ôl o Sir y Ffiliint – colli o drwch blewyn pan ddylid bod yn dathlu.

mewn o'r aegell chwith a sgorio'n bur hawdd wrth y postyn. Cododd Gavin Owen obeithion y tim cartref pan sgoriodd ar ôl ugain munud o'r ail hanner ond coronodd Brian Mathews bnawn da o waith pan sgoriodd bedwaredd gôl Nefyn efo chwarter awr yn weddill.

Roedd cryfder Sion Williams yn allweddol yng nghanol y cae a Bledwyn Evans yn gwrthod ildio modfedd i flaenwyr Caernarfon. Mae cyd-chwarae amddiffyn Nefyn yn datblygu'n gryf a methodd Frank Donohue, chwaraewr profiadol dros ben, a gwneud unrhyw argraff ar Robert Jones. Mae dycnwch egniol Robert yn ei wneud yn amddiffynnwr naturiol ac, ynghyd â Kevin Thomas, maent yn ffurfio partneriaeth glos yn y cefn. Golyga hyn fod Emllyn Hughes a John Gwynfor yn medru gwrthio 'mlaen fwyfwy yng nghanol y cae a chynorthwyo'r ymosodwyr. Erbyn hyn mae Nefyn yn y seithfed safle yn y Gynghrair ac yn gyfforddus ddigon.

